**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

18 Gorffennaf 2023

Annwyl Jane

Cyllid ar gyfer Therapyddion Lleferydd ac Iaith o fewn Timau Cyfiawnder Ieuenctid Cymru

Yn ystod y ddadl yng Nghyfarfod Llawn y Senedd ar 28 Mehefin 2023, gofynnodd un o Aelodau'r Pwyllgor – sef Jane Dodds AS – pam y mae rhai Timau Cyfiawnder Ieuenctid awdurdodau lleol yn gallu sicrhau'n llwyddiannus bod cyllid ar gael i hyfforddi a chyflogi therapyddion lleferydd ac iaith, pan na all awdurdodau lleol eraill wneud hynny (gweler paragraffau 337 a 338 o'r Cofnod). Cafodd y Pwyllgor wybod bod Castell-nedd Port Talbot yn un awdurdod lleol sy'n rhoi blaenoriaeth i anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ei dîm cyfiawnder ieuenctid. Mae adroddiad y Pwyllgor yn tanlinellu'r angen i ddileu'r loteri cod post bresennol, ac felly rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gallai'r trefniadau ariannu yng Nghastell-nedd Port Talbot gael eu cyflwyno'n fwy eang, er mwyn sicrhau bod therapyddion lleferydd ac iaith yn rhan annatod o'r system cyfiawnder ieuenctid mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill.

O ystyried pwysau'r dystiolaeth sy'n awgrymu nad yw anghenion pobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael eu diwallu'n ddigonol a'r diffyg adnoddau o fewn GIG Cymru i gynyddu darpariaeth a lleoedd hyfforddi ar gyfer Therapyddion Lleferydd ac Iaith, byddem yn croesawu ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ystyried ffyrdd eraill o gyflawni hyn. Dyma ofyn, felly, a allwch ymrwymo i ysgrifennu at bob awdurdod lleol a bwrdd rheoli cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru yn eu hannog i fuddsoddi yn y maes hwn, fel y gellir cyflwyno'r enghraifft hon o arfer gorau i bob awdurdod lleol yng Nghymru?

Diolch yn fawr am ein helpu i sicrhau gwell cefnogaeth i bobl ifanc sy'n ymwneud â Chyfiawnder Ieuenctid.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol